

DEDDF CAFFAEL TIR 1981

HYSBYSIAD O FWRIAD I BRYNU YN ORFODOL DIR SY'N FFURFIO RHAN O FAN CYHOEDDUS AGORED YM MWRDEISTREF SIROL CONWY

GORCHYMYN PRYNU GORFODOL GWEINIDOGION CYMRU (CEFNFORDD CAER I FANGOR (YR A55) (GWELLIANT AILALINIO CYFFYRDD 16 AC 16A A'R FFYRDD YMUNO AC YMADAEL)) 202-

1. Mae Gweinidogion Cymru wedi cyhoeddi'r gorchymyn prynu gorfodol drafft uchod a fydd, os y'i gwneir, yn awdurdodi prynu tir sy'n ffurfio rhan o Fan Cyhoeddus Agored (cae chwarae glaswelltog) fel y'i diffinnir yn adran 19 o Ddeddf Caffael Tir 1981 ("Deddf 1981"). Disgrifir yr ardaloedd o fan cyhoeddus agored sydd i'w caffael yn yr Atodlen Gyntaf isod ("tir yr Atodlen Gyntaf") ac maent wedi eu lliwio'n binc ar y plan y cyfeirir ato ym mharagraff 5 isod. Disgrifir yr ardaloedd o dir sydd i'w rhoi yn gyfnewid am dir yr Atodlen Gyntaf yn yr Ail Atodlen ac maent wedi eu lliwio'n wyrdd ar y plan hwnnw.

2. Mae adran 19 o Ddeddf 1981 yn cynnwys darpariaethau i'r perwyl y bydd y Gorchymyn yn ddarostyngedig i weithdrefn seneddol arbennig i'r graddau y mae'n awdurdodi prynu tir sy'n ffurfio rhan o fan cyhoeddus agored oni bai bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn ardystio ei fod wedi ei fodloni

"bod tir arall wedi cael ei roi neu y bydd tir arall yn cael ei roi yn gyfnewid am y tir hwnnw, nad yw ei arwynebedd yn llai ac sydd yr un mor fanteisiol i'r personau, os oes rhai, a chanddynt hawliau Man Cyhoeddus Agored neu hawliau eraill, ac i'r cyhoedd, a bod y tir a roddir yn gyfnewid wedi ei freinio yn y personau yr oedd y tir a brynwyd wedi ei freinio ynddynt, neu y bydd yn cael ei freinio ynddynt, a'i fod yn ddarostyngedig i'r cyfryw hawliau, ymddiriedolaethau a nodweddion a oedd yn gysylltiedig â'r tir a brynwyd".

3. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 19 o Ddeddf 1981 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (OS 1999/672) ac fe'u trosglwyddwyd wedi hynny i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30(1) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Yn rhinwedd paragraff 33(4) o'r Atodlen honno, mae unrhyw offeryn a wneir wrth arfer y swyddogaethau hynny yn ddarostyngedig i weithdrefn arbennig y Cynulliad fel a bennir gan Reol Sefydlog 28 Cynulliad Cenedlaethol Cymru, oni bai bod Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni o ran y materion hynny a nodir yn adran 19(1) o Ddeddf 1981 a pharagraff 6(1) o Atodlen 3 iddi, ac yn ardystio'n unol â hynny.

4. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru roi hysbysiad ffurfiol o'r bwriad i ddyroddi tystysgrif cyn penderfynu, er mwyn rhoi cyfle i sylwadau a gwrthwynebiadau gael eu gwneud. Rhoddent drwy hyn yr hysbysiad hwnnw. Dylai unrhyw sylwadau a gwrthwynebiadau mewn perthynas â'r bwriad hwn gael eu cyflwyno yn ysgrifenedig a'u cyfeirio i'r Arolygiaeth Gynllunio, Adeiladau'r Goron, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ neu eu hanfon drwy e-bost i wales@pins.gsi.gov.uk cyn 7 Mai 2021 gan ddyfynnu'r cyfeirnod 516713.

5. Bydd plan sy'n dangos yr ardal o Fan Cyhoeddus Agored sydd i'w phrynu ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru a gellir ei weld ar bob adeg resymol yng Nghanolfan Gymunedol Maen Alaw, Ffordd Bangor, Penmaenmawr, LL34 6LE. **Sylwer:** Bydd mynediad i'r lleoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau COVID-19 perthnasol fydd ar waith ar y pryd. Yn sgil cyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol COVID-19, dim ond drwy apwyntiad y gellir edrych ar gopiâu. Er mwyn trefnu i edrych ar y dogfennau, cysylltwch â Swyddog

Cyswllt â'r Cyhoedd y Cynllun, Mike Gilbert ar y rhif ffôn symudol: 07840 330 238 neu drwy'r e-bost: A55J15J16@Ramboll.com.

Dylai unrhyw un nad yw'n gallu cyrchu'r Gorchmynion yn ddigidol neu nad yw'n gallu ymweld â'r lleoliadau adneuo gysylltu â'r Swyddog Cyswllt â'r Cyhoedd i wneud trefniadau amgen.

6. Bydd Gweinidogion Cymru yn cynnal ymchwiliad cyhoeddus lleol i'r achos pan fo'n ymddangos iddynt ei bod yn hwylus i wneud hynny.



N HUNTER

Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru
Ar ran Gweinidogion Cymru

**YR ATODLEN GYNTAF
Y MANNAU CYHOEDDUS AGORED SYDD I'W PRYNU**

2/1x	18 metr sgwâr o rannau o gae chwarae amwynder glaswelltog (Man Agored Cyhoeddus) a llwybr troed diddosbarth, i'r gogledd-ddwyrain o briffordd gyhoeddus ddiddosbarth Maes-y-llan ac i'r de-ddwyrain o Gefnffordd yr A55 Caer i Fangor
2/1aa	41 metr sgwâr o rannau o gae chwarae amwynder glaswelltog (Man Agored Cyhoeddus) a llwybr troed di-ddosbarth, i'r gogledd-ddwyrain o briffordd gyhoeddus ddiddosbarth Maes-y-llan ac i'r de-ddwyrain o Gefnffordd yr A55 Caer i Fangor
2/1dd	45 metr sgwâr o rannau o safle amwynder glaswelltog (Man Agored Cyhoeddus) a ffordd ddiddosbarth, i'r gogledd-ddwyrain o briffordd gyhoeddus ddiddosbarth Maes-y-llan ac i'r de-ddwyrain o Gefnffordd yr A55 Caer i Fangor
2/8	2327 metr sgwâr o ran o gae chwarae amwynder glaswelltog (Man Agored Cyhoeddus), i'r gogledd-ddwyrain o briffordd gyhoeddus ddiddosbarth Maes-y-llan ac i'r de-ddwyrain o Gefnffordd yr A55 Caer i Fangor
2/8d	8 metr sgwâr o ran o safle amwynder glaswelltog (Man Agored Cyhoeddus) a rhan o lwybr troed cyhoeddus heb rif, i'r gogledd-ddwyrain o briffordd gyhoeddus ddiddosbarth Maes-y-llan ac i'r de-ddwyrain o Gefnffordd yr A55 Caer i Fangor
2/8e	316 metr sgwâr o ran o safle amwynder glaswelltog (Man Agored Cyhoeddus) a rhan o lwybr troed cyhoeddus heb rif, i'r gogledd-ddwyrain o briffordd gyhoeddus ddiddosbarth Maes-y-llan ac i'r de-ddwyrain o Gefnffordd yr A55 Caer i Fangor

2/8f	555 metr sgwâr o rannau o safle amwynder glaswelltog (Man Agored Cyhoeddus), rhan o lwybr troed cyhoeddus heb rif a ramp dynesu trosbont i gerddwyr, i'r gogledd-ddwyrain o briffordd gyhoeddus ddiddosbarth Maes-y-lan ac i'r de-ddwyrain o Gefnffordd yr A55 Caer i Fangor
2/8h	564 metr sgwâr o ran o safle amwynder glaswelltog (Man Agored Cyhoeddus), i'r gogledd-ddwyrain o briffordd gyhoeddus ddiddosbarth Maes-y-lan ac i'r de-ddwyrain o Gefnffordd yr A55 Caer i Fangor
2/8j	56 metr sgwâr o ran o gae chwarae amwynder glaswelltog (Man Agored Cyhoeddus), i'r gogledd-ddwyrain o briffordd gyhoeddus ddiddosbarth Maes-y-lan ac i'r de-ddwyrain o Gefnffordd yr A55 Caer i Fangor
2/8n	3 metr sgwâr o rannau o gae chwarae amwynder glaswelltog (Man Agored Cyhoeddus) a ramp dynesu trosbont gerddwyr, i'r gogledd-ddwyrain o briffordd gyhoeddus ddiddosbarth Maes-y-lan ac i'r de-ddwyrain o Gefnffordd yr A55 Caer i Fangor
2/8p	1 fetr sgwâr o rannau o gae chwarae amwynder glaswelltog (Man Agored Cyhoeddus) a llwybr troed diddosbarth, i'r gogledd-ddwyrain o briffordd gyhoeddus ddiddosbarth Maes-y-lan ac i'r de-ddwyrain o Gefnffordd yr A55 Caer i Fangor
2/8r	144 metr sgwâr o rannau o gae chwarae amwynder glaswelltog (Man Agored Cyhoeddus) , i'r gogledd-ddwyrain o briffordd gyhoeddus ddiddosbarth Maes-y-Llan ac i'r de-ddwyrain o Gefnffordd yr A55 i Gefnffordd Bangor
2/8s	42 metr sgwâr o rannau o gae chwarae amwynder glaswelltog (Man Agored Cyhoeddus), i'r gogledd-ddwyrain o briffordd gyhoeddus ddiddosbarth Maes-y-Llan ac i'r de-ddwyrain o Gefnffordd yr A55 i Gefnffordd Bangor
2/8t	2 fetr sgwâr o rannau o gae chwarae amwynder glaswelltog (Man Agored Cyhoeddus), i'r gogledd-ddwyrain o briffordd gyhoeddus ddiddosbarth Maes-y-Llan ac i'r de-ddwyrain o Gefnffordd yr A55 Caer i Fangor

**YR AIL ATODLEN
Y TIR SYDD I'W ROI YN GYFNEWID**

2/13e	Tir Cyfnewid mewn cysylltiad â thua 159 o fetrau sgwâr o dir pori, i'r de o'r fangre fasnachol o'r enw Ardal Wasanaethau Orme View ac i'r gogledd-ddwyrain o briffordd gyhoeddus ddiddosbarth Maes-y-Llan
-------	---

2/20	Tir Cyfnewid mewn cysylltiad â thua 4740 o fetrau sgwâr o dir pori, i'r de-ddwyrain o'r fangre fasnachol o'r enw Ardal Wasanaethau Orme View ac i'r gogledd-ddwyrain o briffordd gyhoeddus ddiddosbarth Maes-y-Llan
3/4d	Tir Cyfnewid mewn cysylltiad â thua 83 o fetrau sgwâr o dir pori, i'r dwyrain o'r fangre fasnachol o'r enw Ardal Wasanaethau Orme View ac i'r de-ddwyrain o Gefnffordd yr A55 Caer i Fangor